

1. Gall ceisiadau ar gyfer Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Tŷ Tredegar ddangos unrhyw foment neu eitem yn Nhŷ Tredegar. Caiff ffotograffau o'r parc a'r ardd eu derbyn yn ogystal â ffotograffau o'r tŷ a'r adeiladau cysylltiedig. Gall ymgeiswyr gyflwyno ffotograffau sydd wedi'u cymryd yn Nhŷ Tredegar yn y gorffennol – nid oes rhaid iddynt fod wedi'u cymryd yn 2016/17.
2. Ni all ymgeiswyr gyflwyno mwy na thri ffotograff yr un.
3. Rhaid i ffotograffau fodloni'r meini prawf canlynol:
 - a. Rhaid iddynt fod mewn lliw llawn
 - b. Rhaid iddynt fod yn 6 x 4 modfedd o faint (1800 x 1200 picse)
 - c. Dylent fod ar eglurder o 300dpi neu fwy
 - ch. Ni ddylent fod wedi'u golygu (gweler pwynt 8 am ragor o fanylion)
 - d. Dylent gael eu cyflwyno'n ddigidol (ni allwn dderbyn lluniau sydd wedi'u hargraffu a'u sganio).
4. Dylai ceisiadau gael eu e-bostio i tredegar@nationaltrust.org.uk gyda **Cystadleuaeth Ffotograffiaeth** yn y llinell pwnc. Rhaid i ymgeiswyr gynnwys enw, rhif ffôn cyswllt a disgrifiad byr o'u ffotograff(au) yng ngorff yr e-bost.
5. Y wob'r cyfle i weld eich ffotograff ar y cardiau post sy'n cael eu gwerthu yn y siop roddion yn Nhŷ Tredegar.
6. Bydd y penawdau a ddefnyddir ar y cardiau post yn cael eu hysgrifennu gan staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Os rhowch deitl neu bennawd i'ch ffotograff, cofiwch efallai na chaiff ei ddefnyddio wrth argraffu.
7. Nid yw'r gystadleuaeth ond ar agor i breswylwyr y DU (gan gynnwys preswylwyr Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw). Nid yw cyflogeion yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol na'u teuluoedd agos yn gymwys i gymryd rhan. Rhaid i ymgeiswyr dan 16 oed gael caniatâd rhiant neu warcheidwad i gymryd rhan.
8. Ni ddylai ymgeiswyr fod yn ffotograffwyr proffesiynol. At ddibenion y gystadleuaeth hon, ffotograffydd proffesiynol yw unrhyw un sy'n gwneud mwy na hanner o'i incwm blyneddol o werthu ei ffotograffau.
9. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymwybodol bod ffotograffiaeth ddigidol yn eich galluogi i olygu lluniau. Gallwch gyflwyno lluniau lle mae smotiau, crafiadau neu namau eraill wedi eu dileu. Gallwch fod wedi gweithio ar y lliw neu wella'r llun er budd y cyfansoddiad. Gallwch hefyd fod wedi tocio'r llun i wella'r cyfansoddiad. Ni fyddwn yn derbyn lluniau cyfansawdd – ceisiadau sy'n pwytho dau ffotograff neu fwy at ei gilydd i greu un llun, neu geisiadau sy'n gosod elfennau sydd wedi'u ffotograffio ar wahân ar lun. Gofynnwn i chi fod yn driw i ysbryd y gystadleuaeth a pheidio â thwylo'r gynulleidfa neu gam-gynrychioli'r agwedd ar yr ystâd rydych chi'n ei phortreadu. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r beirniaid yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw lun sydd wedi'i drin yn ormodol i addasu ei ddilysrwydd yn eu barn nhw.

10. Mae'r gystadleuaeth yn cau am **5pm ddydd Mercher 4 Ionawr**. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

11. Caiff yr holl ffotograffau eu beirniadu ar sail y meini prawf canlynol:

- a. Cyfansoddiad
- b. Gallu technegol
- c. Gwreiddioldeb
- ch. Perthnasedd i Dŷ Tredegar

12. Caiff y ffotograffau eu beirniadu gan staff a gwirfoddolwyr Tŷ Tredegar. Byddwn yn cysylltu â'r enillwyr dros e-bost ac yn eu cyhoeddi drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Tŷ Tredegar.

13. Rhaid i bob cais fod yn waith gwreiddiol gan yr ymgeisydd. Rhaid i'r ymgeisydd ddal yr hawlfraint ac ni ddylai dorri hawlfraint neu hawliau eraill unrhyw barti arall nac unrhyw gyfreithiau. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn chwilio am ffotograffau gwreiddiol o Dŷ Tredegar, felly ni ddylai unrhyw geisiadau fod wedi ennill unrhyw gystadleuaeth yn flaenorol.

14. Ni ddylai ffotograffau gynnwys unrhyw bobl y mae modd eu hadnabod. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau mai dyma'r achos. Caiff unrhyw ffotograffau sy'n cynnwys person y gellir ei adnabod ym marn y beirniaid eu diarddel yn awtomatig.

15. Bydd ymgeiswyr yn cadw hawlfraint a hawliau moesol dros y ffotograffau sy'n cael eu cyflwyno. Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth, mae pob ymgeisydd yn:

- a. Rhoi hawl di-gyfyngiad i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ddefnyddio'r ffotograffau i hyrwyddo'r gystadleuaeth y cawsant eu cyflwyno ar ei chyfer, gan gynnwys atgynhyrchu'r ffotograffau drwy sianeli digidol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (y wefan, Facebook, Twitter – gan roi diolch i chi) neu ar gyfer unrhyw gystadlaethau tebyg yn y dyfodol o fewn cyfnod o bum mlynedd o gyhoeddi enillwyr y gystadleuaeth.
- b. Cytuno y gall y defnydd y cyfeirir ato yng nghymal a. uchod gynnwys cyhoeddi, arddangos neu fel arall atgynhyrchu'r ffotograffau (boed ar y rhyngwyd, yng nghylchgrawn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mewn arddangosfeydd neu fel arall) gan gymryd bod defnydd o'r fath at y diben o hyrwyddo'r gystadleuaeth neu gystadlaethau tebyg yn y dyfodol;
- c. Cytuno y gall yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gysylltu ag ef gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir i drafod defnydd posibl o'i ffotograffau y tu allan i'r broses o hyrwyddo'r gystadleuaeth. Bydd trafodaethau o'r fath yn annibynnol ar y gystadleuaeth, ac ni fydd yn effeithio ar gyfle'r ymgeisydd i ennill.

16. Bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn sicrhau bod y ffotograffydd bob amser yn cael diolch lle bo'i lun yn cael ei ddefnyddio neu ei gyhoeddi gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

17. Mae'n bosibl y bydd angen i enillwyr gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd a gall eu henwau a'u siroedd gael eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yng nghyhoeddiadau eraill yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

18. Drwy gymryd rhan, tybir bod yr ymgeiswyr wedi cytuno i lynu wrth y rheolau hyn ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw geisiadau ar unrhyw adeg ac yn ôl ei disgrisiwn os oes ganddi reswm dros gredu bod ymgeisydd wedi torri'r rheolau hyn.

19. Am resymau y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gallai fod yn amhosibl cynnal y gystadleuaeth ei hun neu ddyfarnu gwobrau, ac felly gall yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ôl ei disgrisiwn, ganslo, amrywio neu ddiwygio'r deunydd hyrwyddo ac mae'r ymgeisydd yn cytuno na fydd yr hyrwyddwr yn atebol am hynny.